

<b>Ymyrraeth</b>	<b>Cymunedau Cryf a Gwydn</b>		<b>Gwyrdd</b>	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			<b>Oren</b>	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
<b>Yn arwain</b>	Nicola Prygodzicz / CS Tom Harding	<b>Cyfnod Adrodd</b>	Chwarter 3 2021-22	<b>Coch</b>	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed
<b>Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau</b>					
<p>Rhwydweithiau Lles Integredig - Mae Cydweithrediad Pilgwenlli wedi dod â phobl ynghyd drwy amrywiaeth o raglenni lles gan gynnwys creu rhandir, digwyddiad iechyd a lles, teithiau tywys i aelodau'r gymuned sy'n 50 oed a hŷn, gwefan Pill Connect (<a href="https://www.pillconnects.com/">https://www.pillconnects.com/</a>) a sgysiau cymunedol i bennu blaenoriaethau lles yr ardal.</p> <p>Mae Cydweithrediad Ringland hefyd wedi cryfhau a hyrwyddo digwyddiadau amrywiol gan gynnwys rhaglen hanner tymor o ddigwyddiadau yn yr Hyb Cymunedol, gerddi cymunedol yn Sterndale Bennet a Cecil Sharp Road, gweithgareddau lles mewn coetiroedd drwy Goed Lleol a grŵp sgysiau cymunedol.</p> <p>Mae ail raglen cyllidebu cyfranogol fawr i gefnogi prosiectau adfer o Covid yn mynd rhagddo'n dda. Bydd cyllid CDC a BIPAB o £415k yn cael ei ddyrannu gan ddinasyddion drwy ddigwyddiadau pleidleisio yn ystod Ch4. Mae partneriaid wedi cefnogi grwpiau cymunedol i feithrin eu gallu a chryfhau cyfalaf cymdeithasol.</p> <p>Uwchgynllun Pillgwenlli - recriwtiwyd rheolwr rhaglen i gychwyn gwaith strategol amlasiantaethol i wella lles ac ansawdd bywyd ym Mhilgwenlli Mae sgysiau cymunedol ar y gweill gydag amrywiaeth o randdeiliaid i lywio cyfeiriad yr Uwchgynllun.</p> <p>Blynyddoedd Cynnar Betws - Mae 2 raglen ataliol ar y gweill i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Casnewydd (Braenaru) yn canolbwyntio ar gydweithredu ac integreiddio gwasanaethau o amgylch anghenion teuluoedd; ac mae'r Gymuned Dysgu Cynnar yn darparu amgylchedd ac yn cryfhau cyfalaf cymdeithasol i helpu plant a theuluoedd i ffynnu.</p>					
<b>Mesuriadau Perfformiad Allweddol</b>		<b>Targed</b>	<b>Gwirioneddol</b>	<b>COG</b>	
Mae cynllun cyflawni wrthi'n cael ei ddatblygu a chaiff mesurau eu cymeradwyo drwy'r broses hon.					
<b>Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol</b>					
Uwchgynllun Pillgwenlli – dechrau gwaith a arweinir gan y gymuned i wella iechyd a lles, manau gwyrdd a chymorth busnes a buddsoddi.					
Cynnal digwyddiadau pleidleisio Cyllidebu Cyfranogol ar-lein ac wyneb yn wyneb.					
Gweithio gyda Chomisiwn Tegwch Casnewydd i adolygu proses a chanlyniadau'r rhaglen cyllidebu cyfranogol (y rhaglen Covid gyntaf)					
Parhau â'r gwaith o gychwyn trydydd Rhwydwaith Lles Integredig ym Metws.					
Cwblhau'r gwerthusiad o Adroddiad Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar ym Metws.					
<b>Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd</b>		<b>Statws (U/C/I)</b>	<b>Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen</b>		
Mae allgáu digidol yn rhwystro'r cymunedau yr effeithir arnynt waethaf rhag cymryd rhan mewn rhaglenni ymgysylltu e.e. cyllidebu cyfranogol		<b>Isel</b>	Sicrhawyd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith i gynnwys preswylwyr cartrefi gofal yn y rhaglen cyllidebau cyfranogol ddigidol. Hefyd, trefnu sesiynau pleidleisio wyneb yn wyneb ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.		